**CYNGOR CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**12.05.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Caffi Stesion a ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DW (Cadeirydd; JAJ; RJ; IW; AR; DP; EO; JOJ;<br>**Ymddiheuriadau:** GW; TAJ; LLM<br>**Mynychu:** SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JAJ/LLM ddiddordeb yn Eitem 6 Materion Cynllunio |
| **3** | **Etholiadau Lleol**<br>Etholwyd Cyng Llinos Medi; Llio Angharad a Jackie Lewis yn Gynghorwyr Sir i gynrychioli Ward Talybolion. Nododd LLM byddant yn llunio rota i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymdeithas.<br>Nodwyd pryder lle bo cynrychiolaeth Cynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Cynllunio yn y cwestiwn h.y. eu bod yn gorfod datgan diddordeb ac felly ddim yn gallu cyfrannu yn llawn at drafodaethau materion cynllunio. . Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a CSYM i fynegi y pryder.<br>Llongyfarchwyd Cyng. JAJ; JOJ a LlM ar eu hethol yn gynrychiolwyr Ward Rhodogeidio. Cytunwyd i'r Clerc geisio arweiniad gan CSYM ar ffiniau Ward Rhodogeidio gan fod dealltwriaeth CC Llan yn gwahaniaethau i CSYM ar hyn o bryd.<br>Nodwyd bod sedd wag yn Ward Coedana a Llannerchymedd. Nododd y Clerc bod y broses cyf-ethol wedi cychywn ac i unrhyw rai a diddordeb gysylltu a'r Clerc rhag blaen.<br>Cytunwyd hefyd i anfon llythyr at y cyn-gynghorwyr John Griffith a Ken Hughes i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf.<br>Penderfynwyd i ethol Is-Gadeirydd pan fydd y broses gyf-ethol wedi ei chwblhau. |
| **4** | **Cofnodion** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG**
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 7/4/22 fel rhai cywir - (DP/RJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Swper Cymdeithsol –** Gohirwyd trefniant mis Ebrill. Cytunwyd i ail-drefnu ar gyfer nos Iau 9.6.22 yng Nghaffi Stesion. Clerc i drefnu a chylchredeg y fwydlen rhag blaen.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 12.5.22<br><br>Llythyr gan Mr HJ<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at lythyr dderbyniodd gan HJ ar 28 Ebrill ac a gylchredwyd eisoes i'r aelodau. Roedd HJ yn gwneud cais am gyfarfod gyda'r aelodau i drafod materion parcio heb ganiatad ymhellach. Cytunwyd yn unfrydol i drosglwyddo y mater i ddwylo ein cyfreithiwr er mwyn sirchau ymateb ffurfiol fyddai yn cadarnhau y camau cyfreithiol mae'r Cyngor Cymdeithas wedi ei gymryd eisoes. Nodwyd hefyd y dylai'r ohebiaeth gan y cyfreithwr wneud sylw neilltuol at unrhyw daliad a dderbyniwr gan gwmni gwaredu h.y. bod y ffioedd yn dod i goffrau'r Cyngor ac nid i'w hawlio gan y perchennog. Clerc i weithredu. |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**DP –** nododd bod defaid wedi crwydro i'r Fynwent Gyhoeddus a chreu llansat. Cytunwyd i'r Clerc ofyn i Iwan Roberts addasu'r giat fochyn i rwystro'r crwydro.<br><br>- Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant diweddar y Clwb Peldroed lleol yn ennil y Gynghrair gan ddiolch i JAJ am ei gyfraniad yn cefnogi'r Clwb.<br><br>**JOJ** – arwyddion ger groesffordd Chwaen Bach angen eu cywirio. Clerc i weithredu<br><br>**AR** – wedi derbyn cais gan deulu lleoll i osos mainc yn y Fynwent er cof am eu Mham. Cytunwyd yn unfrydol i osod yng ngwalod y safle. Teulu i gysyttlu gyda'r Clerc.<br><br>- Cyfeiriodd at or-yrru swnllyd fyny ac i lawr y pentref yn hwyr nos. Clerc i nodi gyda'r PCSO<br><br>**JAJ –** Sarn Fadog heb gael sylw. Cytunwyd i wahodd Huw Percy i gyfarfod arbenning yn ystod mis Mehefin i drafod yr amrywiol faterion Priffyrdd sy'n creu pryder. Clerc i weithredu a llunio rhestr ar gyfer trafodaeth.<br><br>- Cynigiodd i ofyn i Iwan Roberts edrych ar y rheiliau ger safle Capel Jeriwsalem hefyd – Clerc i weithredu.<br><br>- Cyfeiriodd at waith sydd wedi ei wneud ar 'expansion tank' yn safle |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Clwb Peldroed<br><br>**RJ –** cyfeiriodd at y golau rhybydd i yrrwyr ger Manceinion a bod angen torri coed o'i gwmpas i wella gweledėdd. Cytunodd RJ/IW i ymgymryd a'r gwaith. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod 7.4.22** **£**<br>GD Lewis – gwaith plymio yny Caffi 90.00<br>Eryl Williams – coladu gwaith cyllid 21/22 150.00<br>Dwr Cymru – Fynhwent Gyhoeddus / Uned 2 181.18<br>Expose Signs – arwyddion Llan/Carmel 1500.00<br>HMRC – taliad cyflog Clerc Ion-Mawrth 157.60<br>Aber Tree Service – torri coed yn safle Stesion 3240.00<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>CSYM – Ies cae chwarae<br>Glan Menai 10/5/22 – 9/5/22 34.74<br>J Alun Foulkes – gwaith archwilio mewnol 100.00<br>Scottish Power – Uned 2 £133.38<br>Golau Dolig - £68.34 201.72<br>Cytunwyd i'r Clerc wirio y cynnydd yn y biliau trydan uchod.<br><br>**Derbyniadau**<br>Menter Mon – rhent Tan y Foel Uned 2 390.00<br>Beaufort Wind – rhodd Melinau Gwynt 4034.00<br>CSYM – taliad 1af praesept 6245.00<br>Mynwentydd – taliadau beddi 285.00<br><br>**Yn y banc heddiw:**<br>Cyfredol: £20193.55<br>Cronfa Wrth Gefn: £11432.93 (£8K wedi ei glustnodi ar gyfer llwybrau'r Fynwent Gyhoeddus)<br><br>Nododd y Clerc bod arwchiliad mewnol y Cyfrifon Blynyddol wedi ei gwblhau yn llwyddiannus. Roedd copi o'r Adroddiad Blynyddol wedi ei |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | chylchredeg eisoes a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y cynnwys. Roedd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol yn awgrymu diweddaru'r Cofrestr Asesau (gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Rhys Jones yn barod) Cytunwyd hefyd i adolygu'r Rheolaethau Ariannol i atgyfnerthu'r broses taliadau bancio ar-lein. |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br>**Cais OP/2021/10 - Ty'n Ffynnon Llannerchymedd –** cytunwyd i ail-anfon sylwadau anfonwyd at y Swyddog Cynllunio yn dilyn ein cyfarfdo mis Ebril. Hefyd i nodi nad yw'r adroddiad wedi ei chywirio a bod cyfeirio at barcio ar safle preifat y Stesion yn parhau.<br><br>**Cais VAR/2022/3 – Cae Mawr Llannerchymedd** – cytunwyd i'r Clerc holi os diwygio amodau'r cais gwreiddiol yn arwain at unrhyw effaith amgylcheddol. Os ddim, yna i nodi fel â ganlyn:-<br>*Gan mai dim ond diwygio geirfa yr amodau ac nid oes unrhyw diwygiad i'r datblygiad ei hun nid oes gan Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd wrthwybebiad i ddiwygio'r amodau.* |
| **8** | **Materion Safloedd**<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Ysgol Haearn –** dim i law |
| **9** | **Unrhyw Fater Arall**<br>**Dathliadau Jiwbili**<br>Cytunwyd i'r Clerc holi'r Ysgol a'r Gymuned os oes unrhyw drefniadau ar gyfer ddathliadau ac yna trafod cefnogaeth gan y Cyngor Cymdeithas fel bo'r briodol.<br><br>**Llythyr Diolch**<br>Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan feddygon Glan Menai. Roeddynt yn gwerthfawrogi ein cais i gael gosod arwyddion parcio ar gyfer Meddygon ar safle parcio y feddygfa.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 pm* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383